
Save the Children
Achub y Plant

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Voices 4 Bettws

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Dathlu Gwahaniaeth: Pontio'r Bwlch



*Hyfforddiant dan arweiniad rhieni wedi'i lunio gan brofiad bywyd*

## Beth yw'r prosiect?

Mae Dathlu Gwahaniaeth: Pontio'r Bwlch yn brosiect hyfforddiant dan arweiniad rhieni i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a niwroamrywiaeth yn well.

Datblygwyd yr hyfforddiant gan **Voices4Bettws** yng Nghasnewydd ac mae profiad bywyd rhieni'n ganolog iddo.

Gyda chefnogaeth gan **Achub y Plant Cymru** a **Plant yng Nghymru**, a chyllid gan Lywodraeth Cymru, ehangwyd y prosiect i **Ben-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful** a **Rhondda Cynon Taf**.




## Pam mae ei angen

Mae'r hyfforddiant yn creu lle diogel, tosturiol a heb stigma ar gyfer sgyrsiau a chyfathrebu gonest rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Gall teuluoedd brofi bwlch rhwng dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol a realiti anghenion eu plentyn.

Gall rhagfarn a stigma greu rhwystrau i ddealltwriaeth a chefnogaeth.



## Sut mae'n gweithio?

Mae rhieni sy'n **'arbenigwyr trwy brofiad'** yn cael eu cefnogi i ddod yn ymarferwyr profiad bywyd.

Mae gan y rhieni hyn brofiad go iawn o fagu plant ag ADY/ND, byw mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan dlodi, a cheisio cael y gefnogaeth iawn i'w plant.

Mae model hyfforddi'r hyfforddwr yn helpu'r rhaglen i dyfu o fewn cymunedau lleol.

## Ers ehangu mae

**32** o rieni wedi cymryd rhan yn y prosiect

**20** o rieni wedi cwblhau'r hyfforddiant llawn a dod yn ymarferwyr drwy brofiad bywyd ardystiedig

## Beth sydd wedi newid i rieni

Mwy o hyder a hunan-gred.

Sgiliau cryfach i eiriol dros eu plentyn eu hun a phlant eraill.

Cysylltiadau lleol a rhwydweithiau cefnogaeth cryfach.

Llai o ynysigrwydd a mwy o ymdeimlad o gymuned.

## Llais y rhiant

*“Rwy’n teimlo’n llawer mwy hyderus wrth siarad dros fy mhlentyn ac wedi fy ngrymuso i gyflwyno hyfforddiant. Rydw i hefyd wedi gwneud ffrindiau hyfryd.”*

*“Ymdeimlad o gymuned. Wedi ennill hyder i eiriol dros anghenion fy mhlentyn ac anghenion plant eraill.”*

*“Hyd yn oed os mai dim ond un person ydw i’n llwyddo i’w gyffwrdd i ddeall gwahaniaeth mewn ffordd gadarnhaol, yna byddaf wedi gwneud gwahaniaeth.”*

*“Byddai pobl nawr yn gwerthfawrogi’r holl anawsterau y mae plant ADY yn eu hwynebu bob dydd.”*

Mae rhieni yn 'arbenigwyr trwy brofiad' yn eu bywydau eu hunain. Drwy roi eu profiadau wrth wraidd y rhaglen, gall gweithwyr proffesiynol ddeall beth sydd ei angen mewn gwirionedd ar blant a theuluoedd.

## Beth sydd wedi newid i weithwyr proffesiynol

**Dywedodd gweithwyr proffesiynol fod yr hyfforddiant wedi cynyddu eu hyder, empathi a dealltwriaeth o blant ag ADY a'u teuluoedd.**

**Mae gweithwyr proffesiynol yn bwriadu gwrando'n fwy manwl ar blant a rhieni, gwella cyfathrebu a darparu cefnogaeth fwy cynhwysol, sy'n seiliedig ar hawliau.**

## Cefnogi newid ehangach

Mae’r model hyfforddi’r hyfforddwr yn barod i’w gyflwyno’n ehangach ar draws Awdurdodau Lleol.

Mae modiwl e-ddysgu wedi’i gyd-gynhyrchu i wella hygyrchedd ac ehangu cyrhaeddiad yr hyfforddiant.

Mae fideo hyrwyddo, podlediad a chyfres adnoddau wedi’u datblygu i gefnogi darpariaeth yn y dyfodol.

## Dysgu mwy

Hoffem ddiolch i’r holl rieni a roddodd o’u hamser i gymryd rhan yn y prosiect hwn.

**I ddysgu mwy** am y prosiect ‘Dathlu Gwahaniaeth’ ac i weld yr adroddiad llawn, ewch i: https://www.childreninwales.org.uk/cy/gweithwyr_profesiynol/ein_gwaith/Pontio-r-Bwlch-Dathlu-Gwahaniaeth/